# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd A Thrafnidiaeth

## EDT(2) 03-06 (p.4)

### Dyddiad: 8 Chwefror 2006
### Amser: 9.00 - 12.30
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol ar gyfer y cyfnod 2007-2013 a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd

#### Pwrpas

Mae’r adroddiad hwn yn hysbysu’r Pwyllgor am y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol newydd ar gyfer y cyfnod 2007-2013 a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd a’r goblygiadau i Fap yr Ardaloedd a Gynorthwyir yng Nghymru.

#### Crynodeb / Argymhellion

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi bod:

- y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol newydd yn cadarnhau bod Gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn ardal a gynorthwyir o dan Erthygl 87(3)a ar gyfer y cyfnod 2007-2013.
- y Canllawiau’n cynnwys meini prawf, hefyd, sy’n cadarnhau bod Dwyrain Cymru’n ardal sy’n gymwys i gael ei dynodi gan Lywodraeth y DU yn ardal ychwanegol Erthygl 87(3)c ar gyfer yr un cyfnod.
- Llywodraeth y DU ar fin gwahodd rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn ymarferiad ymgynghori i benderfynu sut y dylid dynodi ardaloedd ychwanegol Erthygl 87(3)c fel hyn.
- angen cwblhau proses y DU ar gyfer paratoi’r fersiwn terfynol o Fap yr Ardaloedd a Gynorthwyir erbyn mis Gorffennaf 2006.

#### Y Cefndir

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Ganllawiau Cymorth Rhanbarthol (RAG) drafft ar 18 Gorffennaf 2004. Gwahoddwyd Aelod-Wladwriaethau i drafod y cynigion drafft mewn cyfarfod aml-ochrog ym Mrwsel ar 15 Medi 2005 cyn cyflwyno’u hymatebion ysgrifenedig ffurfiol ar 30 Medi 2005. Roedd y Comisiwn wedi dweud ers cryn amser ei fod yn bwriadu paratoi’r fersiwn terfynol o’r canllawiau newydd erbyn diwedd Rhagfyr 2005.

#### Y Sefyllfa Ddiweddaraf

Mabwysiadwyd y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 21 Rhagfyr 2005. Ychydig o newidiadau i'r drafft blaenorol y cafwyd ymgynghori ffurfiol arno oedd yn y ddogfen derfynol.

Ar ôl cytuno ar gyllideb yr UE ym mis Rhagfyr, cadarnhaodd y Comisiwn Ewropeaidd y byddai set ddata Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) gyfredol Eurostat yn cael ei defnyddio i benderfynu pa ardaloedd fyddai'n gymwys ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio ac i fod yn Ardaloedd a Gynorthwyir. Yng Nghymru, y canlyniad yw bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio yn llawn ac i fod yn Ardal a Gynorthwyir o dan Erthygl 87(3)a: sef y canlyniad gorau posibl o ran cadw'r gallu i gefnogi buddsoddi yn yr ardal.

Yn ogystal, mae'r canllawiau newydd yn cadarnhau y gwahanol feini prawf y mae'n rhaid i'r Aelod-Wladwriaethau eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu pa ardaloedd ychwanegol a gynhwysir o dan Erthygl 87(3)c. Mae'r pedair ardal NUTS 3 yn Nwyrain Cymru yn cydffinio ag ardal Erthygl 87(3)a lawn, ac felly maent yn bodloni'r meini prawf a bennwyd gan y Comisiwn.

Tua dechrau Chwefror, mae'r DTI yn bwriadu cyhoeddi dogfen ymgyngori i roi cyfle i randdeiliaid yn y DU ddylanwadu ar y meini prawf a'r ardaloedd ychwanegol, 'ail haen', a ddewisir i fod yn Ardaloedd a Gynorthwyir. Disgwylir y bydd angen cwblhau'r broses ymgynghori hon erbyn mis Gorffennaf 2006 fel y gellir cwblhau'r fersiwn drafft o Fap Ardaloedd a Gynorthwyir y DU a'i gyflwyno i'r Comisiwn cyn egwyl yr haf. Yna, bydd angen i'r Comisiwn gytuno ar y map yn yr Hydref yn barod i'w weithredu yn 2007.

## Effaith y Canllawiau Newydd

Isod, nodir effaith y canllawiau newydd yn y DU:

| Ardal | Dynodiad |
|---|---|
| Cernyw ac Ynysoedd Sili | Ardal Erthygl 87(3)a |
| West Wales and the Valleys | Ardal Erthygl 87(3)a |
| Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban | Ardal Effaith Ystadegol |
| Gogledd Iwerddon | Ardal Datblygu Economaidd<br><br>( 87(3)c ) |

| | |
|---|---|
| Glannau Mersi | Ardal Datblygu Economaidd<br><br>( 87(3)c ) |
| South Yorkshire | Ardal Datblygu Economaidd<br><br>( 87(3)c ) |

Mae terfyn uchaf nifer y bobl sy’n byw yn yr ardaloedd a gynorthwyir yn y DU, a bennwyd gan y Comisiwn, wedi’i godi o’r 9% a gynigiwyd yn wreiddiol i 23.9%. Mae 4,6% o’r cyfanswm hwn mewn ardaloedd dynodedig Erthygl 87(3)a a 6.8% arall yn yr Ardaloedd Effaith Ystadegol a’r Ardaloedd Datblygu Economaidd sy’n golygu bod 12.5% ar gael i’w dosbarthu ar gyfer ardaloedd ychwanegol Erthygl 87(3)c. Bwriedir mynd ati yn awr i ddosbarthu hynny yn y DU trwy’r broses a ddisgrifir uchod.

Mae lefelau uchaf y cymorth fesul eitem yn debyg iawn i’r hyn a geir mewn cynigion drafft cynharach. Gan fod Gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn ardal Erthygl 87(3)a ‘lawn’ gyda llai na 75% o CMC 25 yr UE, mae lefel uchaf y cymorth fesul eitem, ar gyfer cefnogi cwmnïau mawr, yn 30% o swm Cyfwerth â Grant Crynswth (GGE) tra pery cyfnod y rhaglen. Mae hyn yn cymharu â 40% GGE ar gyfer ardaloedd lle mae’r CMC yn llai na 60% o lefel 25 yr UE a 50% GGE ar gyfer ardaloedd lle mae’r CMC yn llai na 45% o lefel 25 yr UE.

Mae lefel uchaf y cymorth fesul eitem i gefnogi cwmnïau mawr mewn ardaloedd Erthygl 87(3)c yn 15% GGE ond gostyngir hyn i 10% GGE lle bo gan ranbarthau fwy na 100% o CMC cyfartalog 25 yr UE ynghyd â chyfradd gyflogaeth is na chyfartaledd 25 yr UE.

Mae terfynau uchaf y cymorth i gwmnïau bach a chanolig eu maint, yn y categorïau uchod i gyd, 20% GGE a 10%GGE, yn y drefn honno, yn uwch.

Mae’r ffaith bod Gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn gyfan wedi cadw statws llawn Erthygl 87(3)a yn ganlyniad gwell o lawer nag a ddisgwyliwyd ar ddechrau’r broses adolygu. Nid oedd sôn am y potensial i ddadlau dros statws ychwanegol Article 87(3)c yn Nwyrain Cymru, chwaith, yng nghynigion gwreiddiol y Comisiwn.

Mae swyddogion yn cydweithio’n agos â’r DTI a’r Trysorlys i lunio’r ymgynghoriad a gynhelir yn fuan yn y DU ynghylch sut i benderfynu ar ardaloedd ychwanegol Erthygl 87(3)c ac i benderfynu ar fersiwn terfynol Map yr Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU.

## Camau i’w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

Nodi datblygiadau diweddaraf yr adolygiad o’r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol.